CYNGOR TREF FFESTINIOG TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor ● 5 Stryd Fawr ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3ES
☎ 01766 832 398 ✉ clerc @cyngortrefffestiniog.cymru

COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG
A GYNHALIWYD NOS IAU 12fed o IONAWR 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cynghorydd Annwen Daniels

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Erwyn Jones, Mel Goch ap Meirion, Kevin Baldwin a Mandy Williams-Davies

9767/01/17 YMDDIHEURIADAU:
Cynghorwyr: Rory Francis, Bedwyr Gwilym, Will G Roberts, Mari Rees, Ronwen D Roberts a Gareth W Jones

9768/01/17 DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw gynghorydd Ddatgan Diddordeb

9769/01/17 MATERION BRYS
Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Bu son am ddyddiad cyfarfod arferol mis Ebrill sydd yn disgyn ar y nos Iau cyn Dydd Gwener y Groglith eleni.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i'w drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.

9770/01/17 MATERION YR HEDDLU
Nid oedd aelod o'r Heddlu yn bresennol yn y cyfarfod.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9771/01/17 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION
CYFARFOD ARFEROL 8fed RHAGFYR 2016

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn cynnig a'r Cynghorydd Kevin Baldwin yn eilio gyda'r cywirdeb mai gwobr twristiaeth gafodd Zip World yn ddiweddar. Cafwyd gwybodaeth bydd y palmentydd yn cael eu asesu yn fuan.

9772/01/17 CYFRIFON I'W TALU

Viking Direct (Defnydd Swyddfa)	£	324.29	Rhif Siec.	002355
Zurich Ins (Goleuadau Nadolig)	£	73.98	Rhif Siec.	002356
Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	83.38	Rhif Siec.	002358
Cricieth Cleaning Ltd (Amrywiol)	£	997.60	Rhif Siec.	002359
SLCC (Aelodaeth)	£	177.00	Rhif Siec.	002360
J P Farrington (Garddio)	£	115.00	Rhif Siec.	002365
G L Jones Playgrounds (Caeau Chware)	£	1140.00	Rhif Siec.	002366
BT (Band eang)	£	32.58	Debyd Uniongyrchol	
BT (Ffôn)	£	40.80	Debyd Uniongyrchol	
Antur Stiniog (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
Cyngor Gwynedd (Trethi)	£	182.50	Debyd Uniongyrchol	
Total Gas & Power (Trydan Pafiliwn)	£	26.26	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod

9773/01/17 PWYLLGOR MWYNDERAU
Derbyn argymhellion Pwyllgor Mwynderau Nos Fawrth 10fed Ionawr 2017

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS FAWRTH 10fed IONAWR 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Wil Guest Roberts (Cadeirydd)
Annwen Daniels
Mel Goch ap Meirion
Erwyn Jones
Rory Francis

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Bedwyr Gwilym
Mandy Williams-Davies

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

1. Pistyll Diffwys
Cafwyd gwybodaeth bod y gwaith angenrheidiol ar y pistyll ar fin dechrau
Argymell: I dderbyn y wybodaeth.

2. Adroddiad Caeau Chwarae
Bu i'r cynghorwyr edrych yn drylwyr ar yr adroddiadau a nodi unrhyw nam. Bu i'r cynghorwyr nodi bod y gwaith ar y siglen nyth deryn y Parc wedi ei gwblhau yn rhad ac am ddim.

Argymell: I holi cwmni G L Jones pa bryd fydd y gwaith ar yr offer chwarae a archebwyd ym mis Awst yn cael ei gwblhau.

3. Adeilad y Cyngor

Cafwyd gwybodaeth bod y broses o drosglwyddo perchnogaeth yr adeilad o Gwmni Adwy i Antur Stiniog wedi ei gwblhau erbyn hyn. Tenantiaid y llawr gwaelod yn unig yw'r Cyngor Tref.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth ac i ddatgan unwaith eto'r siom na chafodd y Cyngor Tref gynnig i gymryd yr adeilad drosodd i berchnogaeth gymunedol yr ardal.

4. Parc Sglefrio

Cafwyd gwybodaeth bod angen ychydig bach o waith unwaith eto ar y rampiau sglefrio i'w cael yn berffaith ar gyfer sglefrio. Gobeithir y bydd cwmni John Roberts (Ffestiniog) Ltd yn gallu cwblhau'r gwaith o glirio'r hen safle traciau ceir modur ddiwedd y mis os bydd y tywydd yn ffafriol. Yn anffodus nid oedd yn bosib cynnal y gweithdy graffiti yn ddiweddar oherwydd y tywydd garw.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth

5. Cae Baltic

Mae'r Cyngor Tref yn dal prydles ar Gae Baltic yn ei gyfanrwydd ac yn gobeithio bydd y rhydd-ddaliad yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Tref o Gyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cyngor Tref wedi neilltuo £3000 yn y braesept tuag at y gwaith o greu traciau beiciau gyda'r gweddill o'r arian i'w godi gan Ffrindiau Cae Baltic. Gobeithir i'r gwaith o godi ffens o amgylch y cae gael ei gwblhau cyn diwedd mis Mawrth. Yn anffodus mae un o drigolion ardal Cae Baltic wedi ceisio hawlio darn o'r cae yn anghyfreithlon ac wedi ei dyllu ar gyfer creu man parcio.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth ac i gysylltu a chyfreithwyr y Cyngor Tref a gofyn iddynt ysgrifennu at y person sydd wedi creu man parcio anghyfreithlon ar dir y Cyngor Tref yn gofyn iddynt roi'r tir yn ol i'w gyfler gwreiddiol ar unwaith.

6. Lloches Bws Sgwâr Rawson

Cafwyd gwybodaeth bod graffiti anweddus wedi ei roi ar un o'r llochesi bws yn Sgwâr Rawson.

Argymell: I gysylltu â Chyngor Gwynedd a gofyn iddynt drefnu i lanhau'r lloches bws cyn gynted â modd.

7. Llwybrau Llechi

Cafwyd gwybodaeth bod y mapiau a yrrwyd ynglŷn â'r Llwybrau Llechi yn amhosib i'w darllen a bod angen mapiau mwy clir.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth ac i holi Cyngor Gwynedd os oes ganddynt fapiau clir yn dangos llwybrau cyhoeddus yr ardal.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Erwyn Jones yn cynnig a'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn eilio. I ymestyn gwahoddiad i aelodau o Fwrdd Antur Stiniog i gyffarfod Pwyllgor Adnoddau ym mis Chwefror.

9774/01/17 PWYLLGOR ADNODDAU

Trefnu cyfarfod Pwyllgor Adnoddau i drafod y braesept 2017/18

PENDERFYNIAD: I gynnal cyfarfod Pwyllgor Adnoddau i drafod y braesept 2017/18 ar nos Fercher 18fed o Ionawr 2017 yn y Siambr am 7.00 o'r gloch

9775/01/17 CEISIADAU CYNLLUNIO
Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

1. Cais Cynllunio Rhif C16/1570/03/LL
Ymgeisydd R & M Thomas
Bryn Myfyr
15 Ffordd Cwm Bowydd
Blaenau Ffestiniog
Cais ar gyfer codi modurdy
Dim Gwrthwynebiad

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C16/1498/03/DA
Ymgeisydd Mr. J. Edwards-Leaney
97 Ffordd Manod
Blaenau Ffestiniog
Cais am ddiwygiad ansylweddol i gais a ganiatawyd yn flaenorol o dan gyfeirnod C13/0831/03/LL trwy newid ffurf talcen yr estyniad fel a ganiatawyd
Caniatáu

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9776/01/17 CYFARFOD ANARFEROL
Gosod dyddiad ar gyfer Cyfarfod Anarferol i osod praesept 2017/18

PENDERFYNIAD: I gynnal Cyfarfod Anarferol i osod praesept 2017/18 dydd Mawrth 24ain o Ionawr 2017 yn y Siambr am 7.00 o'r gloch.

9777/01/17 IECHYD
Ni chafwyd unrhyw drafodaeth.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9778/01/17 GWEFAN Y CYNGOR TREF
Ni chafwyd unrhyw drafodaeth.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9779/01/17 PARTNERIAETH Y PARC
Ni chafwyd unrhyw drafodaeth.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9780/01/17 CAEAU CHWARAE

Cafwyd gwybodaeth gan yr Archwiliwr Caeau Chwarae bod difrod i ddau fin yn y Parc a hefyd bod gwter wedi ei malu.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i drefnu iddynt gael eu trwsio cyn gynted a modd.

9781/01/17 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL

Bu i'r Cynghorydd Mandy Williams-Davies adrodd iddi fynychu cynhadledd cyn y Nadolig i drafod cynghorau lleol.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9782/01/17 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD

Ni chafwyd unrhyw newyddion.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9783/01/17 CLERKS AND COUNCILS DIRECT

Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9784/01/17 THE CLERK

Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 7.49.h.

CADEIRYDD

CYNHELIR CYFARFOD ANARFEROL Y CYNGOR TREF
NOS FAWRTH 24ain IONAWR 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 24ain IONAWR 2017
AR YR 17eg IONAWR 2017

CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF
NOS IAU 9fed CHWEFROR 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 9fed CHWEFROR 2017
AR YR 2ail CHWEFROR 2017